

Cofion

- Anfonwn ein cofion at Mair Owen (Llanfair) ac Elfed Davies (Saron) yn Ysbyty Glan Clwyd, ac at Menna Streeter (Henllan) sydd yn yr Inffirmari. Gweddïwn y bydd y tri ohonynt yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen.
- Yr un yw'n cofion at Megan Evans (Llansannan), hithau wedi cael anffawd yn ystod yr wythnos. Yr ydym yn ei chyflwyno hi, ac eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd gan weddio y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal a'i gariad yn eu hamgylchynu.

I ddo

- Cyfarfod i aelodau'r **Grwp Gwasanaethu** yn Llanefydd nos Iau, Mai 19eg.
- **Cynhadledd i Weithwyr Plant a Ieuenctid** yn y Drenewydd dydd Sadwrn, Mai 21ain. Mwy o fanylion gan Sarah Morris (870601). Rhaid cofrestru erbyn dydd Mawrth nesaf (Mai 10fed) os oes gennych ddi-ddordeb.
- **Martyn Geraint** fydd yn dod draw i'r Fro i oedfa'r bore ein Sul **i-Grist** eleni a gynhelir ar Orffennaf 3ydd yn Llansannan. Mwy o fanylion i ddilyn.
- Bydd y cwrs **Souled Out**, sydd ar gyfer ieuenctid hŷn, yn cael ei gynnal yng Ngholeg y Bala, Awst 12fed-19fed. Mae'r Henaduriaeth yn cynnig cymhorthdal o hyd at 25% i bob unigolyn sydd am fynd ar y cwrs. I dderbyn y cymhorthdal, cysylltwch â Mair (870632) mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i Aneurin - ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102 erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 8^{fed} Mai 2011

Cyfres newydd yn cychwyn heno yn Oedfa'r Fro ar berson a gwaith yr Ysbryd Glân.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da, a chroeso eto i oedfaon y dydd! Yn dilyn wythnos gythryblus arall yn hanes y byd – etholiadau, stormydd, a'r holl helynt ynglŷn â marwolaeth Bin Laden, mae rhywun yn gorfod gofyn y cwestiwn 'Beth sydd yn mynd i wneud gwell byd mewn gwirionedd?' Ydi'r byd yn ddiogelach yn dilyn marwolaeth Bin Laden? Ydi'r byd am fod yn well ar ôl i ni gael llywodraeth wahanol? Mae wythnos Cymorth Cristnogol hefyd ar y gorwel a byddwn ni fel corff Crist yn chwilio am ffyrdd i ddileu tlodi yn y byd ac yn Nicaragiwa yn arbennig eleni. Sut mae helpu'r tlodion? Sut mae dod â chyfiawnder i sefyllfaoedd mor gymhleth?

Dwn i ddim amdanoch chi ond teimlo'n fach iawn fydda i wrth wynebu'r fath gwestiynau!

Mae angen help arnom – mae hynny'n siŵr! Un wers glir yn y Beibl ydi honno sy'n dweud bod pob un unigolyn yn bwysig yn yr eglwys a bod gan bawb ei waith ei hun i'w gyflawni. Mae hyn yn wir er pa mor fach a diwerth y byddwn yn ei deimlo ar adegau. Un o'r geiriau newydd a ddysgais yr wythnos diwethaf oedd y gair 'tramblu'!! I'r rhai ohonoch sydd, fel Mrs Eiddwen Jones gynt, yn hen gyfarwydd â pharatoi tyrcwn a ieir i'r bwrdd, mae'r gair yn gyfarwydd. Ond gan fy mod i yng nghenedlaeth yr 'oven ready chicken' oddi ar silff yr archfarchnad, roedd y gair yn ddieithr i mi! 'Tramblu' ydi'r plu bach sy'n cael eu llosgi yn fflam y 'meths' – o leia roeddwn yn gwybod am hwnnw(!) – i lanhau croen y 'deryn yn iawn ar ôl i'r prif blu gael eu plwicio i ffwrdd. Rolio'r deryn uwchben y fflam las nes byddai arogl 'singio' dros y lle.

Plu bach, diwerth yr olwg ydi'r tramblu ond y mae ganddynt bob un waith pwysig i'w gyflawni. Dyma'r plu sy'n cadw gwres y deryn yn gyson a'r plu sy'n dramgwydd i chwain ac ati gyrraedd at y croen. Bydd ieir yn aml yn ysgwyd eu hunain mewn llwch i lanhau y tramblu oddi tanodd i waredu unrhyw berygl!

Ond digon am arferion ieir! Y pwynt ydi ein bod ninnau yn teimlo'n wan a dinerth yn aml ond y mae Duw yn dweud yn glir ein bod yn rhan amhrisiadwy o'r corff a bod Crist wedi rhoi ei hun i wneud yn siŵr ein bod yn aeddfedu i'n llawn dwf i'w wasanaethu o tra byddwn yn y byd. A dyma, mae'n debyg ydi'r gamp. Yn wyneb y cwestiynau mawr – heddwch, cyfiawnder a cheisio gwell byd – gweld cyfle i wasanaethu a wna'r Cristion. Ond gwasanaethu Crist pob tro ac nid uchelgais bydol. Ceisio ei ogoniant Ef ym mhob peth.

Byddwn yn dechrau cyfres newydd heno o rwan hyd y Pentecost ar berson a gwaith yr Ysbryd Glân. Dyma ffynhonnell ein help. Dewch i wrando - a phob bendith i bawb yn yr oedfaon heddiw.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **Grŵp genod blynyddoedd 7-11** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
• **Adnabod Addoli** yn y Granar am 8.00.
- Mercher • **Darganfod Cristnogaeth** yn Ffestri Cefn Meiriadog am 7.30.
• **Cwrs i Flaenoriaid ac Aelodau Eglwysi'r Henaduriaeth** yn Nhrefnant am 7.00. Yr ail yn y gyfres o chwech sesiwn i helpu pobl i baratoi deunydd ar gyfer arwain Addoliad.
- Iau • Bydd cyfarfod i aelodau'r **Pwyllgor Bugeiliol** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener • Cyfarfod o waith **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd a Chyfarfod Gwobrwyo'r Ysgol Sul** yng Nghapel Bethania, Rhuthun.
• **Penwythnos 'GWERTHFAWR'** i ferched oed uwchradd yng Ngholeg y Bala, Mai 13eg-15fed. Mwy o fanylion trwy ffonio'r Coleg: 01678 520565.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma • Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghewn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth • Yn dilyn y gwasanaeth ar 'Ofalu' y Sul diwethaf, cynhelir cyfarfod i drafod y camau nesaf yn Ffestri Cefn Meiriadog am 7.30.
- Sul nesaf • Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma • Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf • Cynhelir Sasiwn y Plant yn Nantglyn am 2.00 gyda Mrs Vera Savage yn arwain. Bydd y casgliad yn mynd i Hosbis San Cyndeyrn.
• Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma • Bydd Cyfarfod Gweddi am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.
- Mawrth • Bydd cyfarfod yn y Ffestri am 8.00 ar gyfer y rhieni a phawb sydd â diddordeb yn y gwaith plant yn Llansannan.
- Iau • Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf • Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma • Bydd y Parch Ioan Davies yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.
- Sul nesaf • Cynhelir Sasiwn y Plant yn Nantglyn am 2.00 gyda Mrs Vera Savage yn arwain. Bydd y casgliad yn mynd i Hosbis San Cyndeyrn.

Henllan a Groes

- Sul yma • Bydd Gwasanaeth yn Groes am 10.00 a'r Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Eglwys Henllan am 11.00 a'r Ysgol Sul am 2.00.
- Sul nesaf • Cynhelir Sasiwn y Plant yn Nantglyn am 2.00 gyda Mrs Vera Savage yn arwain. Bydd y casgliad yn mynd i Hosbis San Cyndeyrn. Bydd Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma • Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn **Eglwys Llanefydd am 9.30** – bydd Stodin Masnach Deg yn dilyn y gwasanaeth. Bydd casglwyr yn dod o amgylch o dŷ i dŷ, ac eleni bydd Cymorth Cristnogol yn derbyn arian tramor hefyd. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 11.00.
- Sul nesaf • Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghewn Berain am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.